# ATODLEN 14

# RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

## RHAN 2

## RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

*Tynnu'n ôl ryddhadau sydd ar gael i fasnachwyr eiddo*

8 (1) Caiff rhyddhad o dan baragraffau 3 (masnachwr eiddo yn caffael gan unigolyn sy'n caffael annedd newydd) a 4 (masnachwr eiddo yn caffael gan unigolyn pan fo cadwyn o drafodiadau yn torri) ei dynnu'n ôl os yw'r masnachwr eiddo—

(a) yn gwario mwy na'r swm a ganiateir ar adnewyddu'r hen annedd,

(b) yn rhoi les neu drwydded ar gyfer yr hen annedd, neu

(c) yn caniatáu i unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion) feddiannu'r hen annedd.

(2) Nid yw is-baragraff (1)(b) yn gymwys o ran rhoi les neu drwydded i'r unigolyn sy'n caffael yr annedd newydd neu'r ail annedd am gyfnod o ddim mwy na 6 mis.

(3) Caiff rhyddhad o dan baragraff 5 (rhyddhad pan fo masnachwr eiddo yn caffael gan gynrychiolwyr personol) ei dynnu'n ôl os yw'r masnachwr eiddo—

(a) yn gwario mwy na'r swm a ganiateir ar adnewyddu'r annedd,

(b) yn rhoi les neu drwydded ar gyfer yr annedd, neu

(c) yn caniatáu i unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion) feddiannu'r annedd.

(4) Caiff rhyddhad o dan baragraff 6 (masnachwr eiddo yn caffael mewn achos o adleoli cyflogaeth) ei dynnu'n ôl os yw'r masnachwr eiddo—

(a) yn gwario mwy na'r swm a ganiateir ar adnewyddu'r annedd,

(b) yn rhoi les neu drwydded ar gyfer yr annedd, neu

(c) yn caniatáu i unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion) feddiannu'r annedd.

(5) Nid yw is-baragraff (4)(b) yn gymwys o ran rhoi les neu drwydded i'r unigolyn sy'n adleoli am gyfnod o ddim mwy na 6 mis.

(6) Pan dynnir rhyddhad yn ôl, swm y dreth sydd i'w godi yw swm y dreth a fyddai i'w godi mewn cysylltiad â'r caffaeliad oni bai am y rhyddhad.